

Tasg 1

Ffordd o feddwl

Tasg Grŵp

Trefnwch eich hunain yn grŵpiau o 4 neu 5. Dewiswch un aelod o'r grŵp i fod yn gadeirydd ac un arall i fod yn ysgrifennydd. Y cadeirydd fydd pennaeth y grŵp a'r ysgrifennydd fydd yn ysgrifennu, ar ffurf pwyntiau ar ddarn o bapur neu ar gyfrifiadur, yr hyn sy'n cael ei drafod a'i benderfynu. Bydd aelodau eraill y grŵp yn cynnig barn a syniadau. Byddai'n bosib creu map meddwl neu gynllun corryn i ddangos syniadau. Os nad yw pawb yn cytuno ar unrhyw fater, mae'n bosib i'r grŵp gynnal pleidlais, gyda phawb yn codi llaw i ddangos beth yw eu barn. Os yw'r bleidlais yn gyfartal, y cadeirydd fydd â'r gair olaf.

Mae eich grŵp chi wedi derbyn arian oddi wrth Lywodraeth Cymru i sefydlu gweithgaredd chwaraeon newydd sbon yn eich ardal chi er mwyn hybu ffitrwydd a thynnu'r gymdeithas at ei gilydd.

Trafodwch:

- beth yw eich nod fel grŵp
- pa fath o weithgaredd fyddai orau i chi ei sefydlu
- at bwy y bydd y gweithgaredd yn cael ei anelu
- pwy fydd yn rhedeg y gweithgaredd
- ble bydd y gweithgaredd yn cael ei gynnal
- beth rydych chi'n disgwyl fydd canlyniad y gweithgaredd i'ch cymdeithas chi.